# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4

## Cofnodion Cryno (LC4(3)-19-10) dyddiad: 2 Rhagfyr 2010

**Amser: 09.31 – 11.20**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4**

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Peter Black AC, Gorllewin De Cymru
Brian Gibbons AC, Aberafan
Dai Lloyd AC, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe
Jonathan Morgan AC, Gogledd Caerdydd
Jenny Randerson AC, Canol Caerdydd

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Sarah Beasley, Clerc
Sarah Sargent, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Christine Chapman. Roedd Val Lloyd yn dirprwyo ar ei rhan.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) – Cyfnod 1: Ystyried y prif faterion

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

2.2. Cynigodd Jonathan Morgan AC y gwelliant a ganlyn i linell 2 o baragraff 470 (Pennod 7):

Dileu’r geiriau ”ystyried diwygio” ac ychwanegu’r gair ”diwygio”, gan olygu bod y paragraff hwn yn dweud:

Felly, ar sail y dystiolaeth a gafwyd, rydym yn argymell y dylai’r Dirprwy Brif Weinidog **ddiwygio**’r Mesur arfaethedig er mwyn cynnwys darpariaeth a fyddai’n galluogi Gweinidog yn y dyfodol i wneud rheoliadau i weithredu darpariaethau’r Mesur arfaethedig yng nghyd-destun y cludiant a ddarperir i ddisgyblion yn ystod y diwrnod ysgol.

Yn dilyn trafodaeth, cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant drwy godi llaw.

O blaid: Jonathan Morgan, Peter Black, Bethan Jenkins

Yn erbyn: Brian Gibbons, Val Lloyd

**Derbyniwyd y gwelliant**